OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 1351 (Cy.127)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) (Diwygio) 2009

*Gwnaed - - - - 2 Mehefin 2009*
*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 4 Mehefin 2009*

*Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2)*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 7(1) a (4) a 42(6) a (7) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt(**2**), mae Gweinidogion Cymru, gan eu bod o'r farn y caiff Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, o roi sylw i'w amcanion cyffredinol, gyflawni'n briodol y swyddogaethau ychwanegol a roddir iddo drwy hyn ac, yn unol ag adran 7(2), ar ôl cynnal unrhyw ymgynghoriad y mae'n ymddangos iddynt ei fod yn briodol, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) (Diwygio) 2009.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Gorffennaf 2009 ac eithrio erthygl 2(2)(a) a (3)(b) a ddaw i rym ar 12 Hydref 2009 ac erthygl 2(2)(b) a (3)(a) a ddaw i rym ar 26 Gorffennaf 2010.

### Diwygio Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2000

**2.**—(1) Mae Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2000(**3**) wedi'i ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Rhan 1 o'r Atodlen,

(a) ym mharagraff 2 yn lle "adran 3(3)(a) i (c)" rhodder "adran 3(3)(aa), (b)";

(b) ar ôl paragraff 3 mewnosoder y canlynol —

(**1**) 1998 p.30. Mae'r darpariaethau perthnasol yn gymwys o ran Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn rhinwedd adrannau 8 a 9 o'r Ddeddf a Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru 1998 (O.S. 1998/2911).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) O.S. 2000/1941 (Cy.139), a ddiwygiwyd gan O.S. 2001/2497 (Cy.201), O.S. 2005/68 (Cy.6) ac O.S. 2006/1341 (Cy.132).

"**3A.** Athrawon cymwysedig y mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi'r gorau i'w monitro yn y modd a grybwyllir yn adran 24 o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006(**4**) yn unol ag adran 26 o'r Ddeddf honno.".

(3) Yn Rhan 2 o'r Atodlen,

(a) ar ôl paragraff 19 mewnosoder y canlynol —

"**19A.** A yw'r person yn ddarostyngedig i fonitro'n unol ag adran 24 o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006, ac os na, a yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi'r gorau i fonitro'n unol ag adran 26 o'r Ddeddf honno.";

(b) ar ôl paragraff 22 mewnosoder y canlynol —

**22A.** Os yw'r person wedi'i wahardd o weithgaredd a reoleiddir sy'n ymwneud â phlant (o fewn ystyr adran 3(2) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006), datganiad i'r perwyl hwnnw.

(c) ar ôl paragraff 23B mewnosoder y canlynol —

"**23C.** Telerau unrhyw gyfyngiad neu fanylion unrhyw waharddiad sydd mewn grym am y tro mewn perthynas â'r person o ganlyniad i gamau disgyblu a gymerwyd gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Gogledd Iwerddon.

**23D.** Telerau unrhyw gyfyngiad neu fanylion unrhyw waharddiad sydd mewn grym am y tro mewn perthynas â'r person o ganlyniad i gamau disgyblu a gymerwyd gan An Chomhairle Mhúinteoireacht neu'r Cyngor Addysgu a sefydlwyd o dan adran 5 o Ddeddf y Cyngor Addysgu, 2001(**5**) (corff y mae ganddo swyddogaethau sy'n cyfateb i rai'r Cyngor mewn perthynas â Gweriniaeth Iwerddon).".

*Jane Hutt*
Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

2 Mehefin 2009

(**4**) 2006 p.47.
(**5**) Rhif 8, 2001.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2000. Mae'r Gorchymyn hwnnw'n ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ("y Cyngor") gynnal cofnodion sy'n ymwneud â chategorïau penodedig o bersonau.

Mae'r diwygiadau fel a ganlyn—

- ychwanegwyd at y categori o bersonau y mae'n rhaid i'r Cyngor gadw cofnodion amdanynt unrhyw athro cymwysedig neu athrawes gymwysedig y mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi'r gorau i'w fonitro neu i'w monitro o dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006;
- ychwanegwyd at yr wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yn y cofnodion a gedwir gan y Cyngor y canlynol—
  - — a yw person yn cael ei fonitro neu wedi peidio â chael ei fonitro o dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006,
  - — a yw person wedi'i wahardd o dan y Ddeddf honno,
  - — telerau unrhyw gyfyngiad neu waharddiad a osodir gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Gogledd Iwerddon,
  - — telerau unrhyw gyfyngiad neu waharddiad a osodir gan An Chomhairle Mhúinteoireachta neu Gyngor Addysgu Gweriniaeth Iwerddon.